# DIWEDDARIAD I WEINIDOGION A RHANDDEILIAD

## Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd: Diweddariad i Weinidogion

Mae’r Unedau Tystiolaeth yn parhau i weithio’n agos gyda chydweithwyr yn ein his-adran tystiolaeth a chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant ehangach a’n Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i wella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd tystiolaeth ynglŷn ag unigolion â nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig, er mwyn inni ddeall yn llawn lefel yr anghydraddoldebau a’r mathau o anghydraddoldebau a geir yng Nghymru. Gweler Tabl A am restr o flaenoriaethau wedi’u cwblhau yr Unedau Tystiolaeth, eu blaenoriaethau presennol a’u blaenoriaethau yn y dyfodol.

## Blaenoriaethau allweddol parhaus: *Fframwaith Gwerthuso Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol*

Mae'r Uned Dystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil yn datblygu fframwaith gwerthuso effaith cyffredinol ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'n nodi sut mae'r Uned yn disgwyl i bethau newid yn sgil y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd, a yw'r camau hynny'n creu newid, ac i ba raddau. Yn ogystal â defnyddio niferoedd i fesur newid, bydd yr Uned yn casglu straeon neu brofiadau pobl i helpu i ddisgrifio gwerth neu brofiad o unrhyw newid sy'n digwydd.

Mae'r Uned Dystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil hefyd wedi comisiynu sawl prosiect tystiolaeth o brofiad bywyd ar raddfa fach er mwyn darparu mwy o dystiolaeth i werthuso effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar y themâu cyffredin allweddol sy'n deillio o'r Cynllun, e.e. bwlio ac aflonyddu, ac mae i sawl un ffocws croestoriadol.

### *Tasglu Hawliau Pobl Anabl*

Mae'r Unedau Tystiolaeth yn gweithio gyda Thasglu Hawliau Pobl Anabl a Rhaglen Ymchwil Fewnol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i gydgynhyrchu tystiolaeth a fydd yn profi ac yn cryfhau ymarferoldeb rhai o flaenoriaethau'r Tasglu. Gwahoddwyd Cadeiryddion y Gweithgorau i gydlunio a chyflawni'r gwaith ymchwil ochr yn ochr â dadansoddwyr a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Nod yr Unedau Tystiolaeth yw defnyddio'r hyn a ddysgir o'r prosiect hwn i hwyluso gwaith cydgynhyrchu ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i'r dyfodol. Y nod yw cyhoeddi yn hydref/gaeaf 2024.

### *Y Model Cymdeithasol o Anabledd*

Mae'r dystiolaeth bresennol i gyd yn seiliedig ar y model meddygol o anabledd sy'n canolbwyntio ar amhariadau, yn hytrach na'r model cymdeithasol o anabledd, sy'n honni mai rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol sy'n rhoi unigolion dan anfantais, nid eu cyflyrau iechyd. Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Anabledd wedi comisiynu gwaith ymchwil i ddatblygu a phrofi cwestiynau y gellir eu defnyddio er mwyn casglu data i ganfod pobl â chyflyrau iechyd sy'n profi rhwystrau cymdeithasol sy'n eu hanablu. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall effaith polisïau ar bobl anabl, a sut y gall polisïau leihau neu ddileu rhwystrau i bobl â chyflyrau iechyd. Mae'r ymchwil wedi cael ei dyfarnu i Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol, a dechreuodd y contract ym mis Mawrth 2024.

### *Asesu Gwerthusadwyedd Cynllun Gweithredu LHDTC+*

Mae'r Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb wedi comisiynu Alma Economics i gynnal Asesiad o Werthusadwyedd Cynllun Gweithredu LHDTC+, a fydd yn argymell sut y dylid gwerthuso effaith y cynllun. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynllun yn cyflawni dros bobl LHDTC+. Gweithiodd yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb yn agos gyda chydweithwyr polisi ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau bod anghenion polisi yn cael eu diwallu a bod gweithgarwch ymgysylltu â phartneriaid allanol a chymunedau LHDTC+ yn cael ei gynnal mewn ffordd sensitif. Mae'r gwaith maes wedi cael ei gwblhau ac mae'r adroddiad yn mynd drwy broses sicrhau ansawdd, gyda'r nod o'i gyhoeddi erbyn haf 2024.

### *Safonau casglu data ar ryw a rhywedd*

Ar hyn o bryd, caiff prosesau casglu data Llywodraeth Cymru eu llywio gan safonau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, sydd wedi'u cysoni, ar ryw a rhywedd. Mae hwn yn faes dadleuol a chymhleth ac mae gwaith helaeth yn mynd rhagddo i ddeall y dulliau gweithredu cyfreithiol, moesegol, ac ymgynghorol sydd eu hangen i gyflawni'r ymchwil yn briodol. Mae'r Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb wedi comisiynu cam cyntaf y gwaith hwn a fydd yn cynnwys adolygiad pen desg o gwestiynau sydd wedi'u llunio i gasglu data ar ryw a hunaniaeth rhywedd, ynghyd ag ymgynghoriad anffurfiol â sefydliadau rhanddeiliaid i ddeall a oes anghenion eraill yng Nghymru yn y maes hwn. Dyfarnwyd y contract i Laurel Research, a dechreuodd y gwaith ym mis Mawrth 2024.

### *Ymarferoldeb cryfhau'r sampl o leiafrifoedd ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (yr Arolwg Cenedlaethol) yn ffynhonnell ddata allweddol ar gyfer y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol sy'n monitro cynnydd, ac mae'n ffynhonnell

wybodaeth allweddol ar gyfer penderfyniadau polisi. Ar ei ffurf bresennol, ni all yr Arolwg Cenedlaethol roi digon o wybodaeth fanwl am boblogaethau bach megis nodweddion gwarchodedig. Comisiynodd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil athro Gwyddor Gymdeithasol Feintiol yn Ysgol Economeg Llundain i asesu priodoldeb y dulliau samplu gwahanol o gryfhau'r arolwg. Cwblhawyd hyn yn 2023. Ar sail yr argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwn, mae'r Unedau Tystiolaeth yn ystyried yr opsiynau a gynigiwyd yn fanylach gyda'r nod o gyhoeddi canfyddiadau'r ddau brosiect ymchwil yn ystod hydref 2024.

**Rhaglen Waith yr Unedau Tystiolaeth**

Mae Tabl A isod yn rhoi rhestr lawn o’r prosiectau y mae’r Unedau Tystiolaeth wedi’u cwblhau yn y flwyddyn ariannol 23/24 ac y byddant yn eu cyflawni ac yn eu cwmpasu yn y flwyddyn ariannol 24/25. Mae’r rhain wedi cael eu llywio gan anghenion polisi fel rhan o’r broses cynllunio tystiolaeth yn y tair Uned Tystiolaeth.

**Tabl A**

**Prosiectau a gwblhawyd yn 2023-24**

| **Prosiect** | **Nod** | **Cyhoeddiad** | **Effaith** |
|---|---|---|---|
| Adroddiad Llesiant Cymru: y bennod ar Gymru sy'n fwy cyfartal | Coladu'r ystadegau cyhoeddedig ynglŷn â chydraddoldeb ar gyfer y bennod ar Gymru sy'n fwy cyfartal yn yr adroddiad Llesiant Cymru blynyddol, sy'n ein helpu i asesu a ydym yn gwneud cynnydd o ran y Dangosyddion Cenedlaethol | Cyhoeddwyd adroddiad Llesiant Cymru: 2023 ar 28 Medi 2023.<br><br>Cyhoeddwyd is-adroddiad ar ethnigrwydd ochr yn ochr â'r prif adroddiad. | Mae'r adroddiad Llesiant yn ffynhonnell allweddol a ddefnyddir gan randdeiliaid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dinasyddion a'r cyfryngau i ddeall y tueddiadau a'r heriau allweddol y mae Cymru yn eu hwynebu. Caiff ei ddefnyddio gan Senedd Cymru, y Comisiynwyr a Swyddfa Archwilio Cymru, i graffu ar berfformiad Cymru yn erbyn y nodau.<br><br>Bydd yr is-adroddiad ar ethnigrwydd yn un o'r llinellau sylfaen a ddefnyddir i fesur llwyddiant Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. |
| Asesiad cyflym o'r dystiolaeth o anghydraddoldeb lefel macro | Rhoi tystiolaeth ar gyfer Asesiad Effaith Integredig Strategol y Gyllideb ar anghydraddoldebau yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar bwy sydd o dan yr anfantais fwyaf. | Adolygiad mewnol:<br><br>wedi'i rannu â'r Cabinet i'w drafod ar 18 Medi 2024 ynglŷn â thoriadau cyllidebol 23/24,<br>wedi llywio'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ar gyfer Cyllideb Ddrafft 24/25. | Mae proses dyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ei hadnoddau blaenoriaethu i gefnogi pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod o dan anfantais. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymchwiliad COVID-19 – asesu tystiolaeth ar gyfer Ymchwiliad COVID-19. | Darparu adolygiad gan gymheiriaid o adolygiadau a gomisiynwyd gan ymchwiliad COVID-19 Lloegr er mwyn asesu a ymdriniwyd â sylfaen dystiolaeth Cymru yn ddigonol. | Pre-existing inequalities experienced by LGBTQ+ groups<br><br>Inequality, later life and ageism | Cafodd safbwyntiau a thystiolaeth o Gymru eu hadlewyrchu'n llawn yn y dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o Ymchwiliad COVID-19. |
| Datblygu'r fframwaith cysoni i gefnogi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 | Adnodd mapio mewnol i'w ddefnyddio gan gydweithwyr yn yr is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i olrhain cysondeb rhwng meysydd polisi cydraddoldeb. | Adnodd mewnol at ddefnydd swyddogion polisi cydraddoldeb | Mae fframwaith cysoni wedi helpu i ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft i nodi unrhyw ryngweithio rhwng y cynlluniau gweithredu cydraddoldeb a chyfleoedd i ystyried croestoriadedd yn ehangach ym mhob un o'r cynlluniau gweithredu cydraddoldeb. |
| Fframwaith Gwerthuso a Monitro Effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Gwerthuso llwyddiant Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. | Rhanwyd drafft o'r crynodeb lefel uchel o'r fframwaith ei rannu â'r Grŵp Atebolrwydd Allanol ehangach ym mis Chwefror 2024.<br><br>Disgwylir ei gyhoeddi erbyn gwanwyn 2024. | Effaith y fframwaith gwerthuso yw dylanwadu ar ddulliau gweithredu gwrth-hiliol a'u hymgorffori drwy'r ffordd rydym yn mesur Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac yn olrhain a yw'n cyflawni ei nod o wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030. |
| Dadansoddi'r Cyfrifiad o ran ethnigrwydd | Gwneud rhagor o waith dadansoddi ar Gyfrifiad 2021 o ran ethnigrwydd yn ôl canlyniadau bywyd. | Cyhoeddwyd Bwletin ethnigrwydd ar 5 Gorffennaf 2023. | Prosesau gwneud penderfyniadau polisi ar sail gwybodaeth sydd wedi ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn cymdeithas i gymunedau ethnig leiafrifol yng Nghymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bod yn llinell sylfaen ar gyfer mesur effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. |
| Ymchwil Ansoddol Gwrth-hiliaeth ac Addysg Bellach i brofiadau bywyd myfyrwyr addysg bellach. | Rhoi cyngor ac arweiniad ar Ymchwil Gwrth-hiliaeth ac Addysg Bellach i brofiadau bywyd dysgwyr ôl-16 a staff. | Cyhoeddwyd adroddiad terfynol Gwrth-hiliaeth ac Addysg Bellach ar 5 Hydref 2023. | Rhoi mwy o ddulliau gweithredu gwrth-hiliol ar waith mewn penderfyniadau polisi ym maes Addysg Bellach yng Nghymru e.e., gwella darpariaethau cymorth gyrfa gynnar i staff ethnig leiafrifol. |
| Fframwaith Integreiddio Mudwyr | Datblygu Fframwaith Dangosyddion Integreiddio Mudwyr i Gymru. | Cyhoeddwyd y Fframwaith Integreiddio Mudwyr ym mis Rhagfyr 2023. | Llywio penderfyniadau polisi yng Nghymru e.e., datblygu gwasanaethau sy'n galluogi mudwyr i integreiddio'n well yng Nghymru. |
| Dadansoddi'r Cyfrifiad o ran pobl anabl | Gwneud rhagor o waith dadansoddi ar Gyfrifiad 2021 o ran pobl anabl yn ôl canlyniadau bywyd. | Cyhoeddwyd Bwletin pobl anabl ar 6 Rhagfyr 2023. | Gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag cael cyflogaeth er mwyn llywio gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl / Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl sy'n mynd rhagddo. |
| Dadansoddi'r Cyfrifiad o ran cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd | Gwneud rhagor o waith dadansoddi ar Gyfrifiad 2021 o ran cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. | Cyhoeddwyd y bwletin ar ddechrau mis Mawrth 2024. | Gwell sylfaen dystiolaeth ar hunaniaeth rywiol a hunaniaeth rhywedd mewn perthynas ag anghydraddoldeb canlyniadau. |
| Adolygiad cyflym o dystiolaeth ar anghydraddoldebau rhywedd. | Cefnogi dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gynllunio camau gweithredu cydraddoldeb rhywedd. | Adolygiad mewnol, yn cael ei gyflwyno yn y Fforwm Cydraddoldeb Rhywedd | Penderfyniadau polisi gwybodus ar weithredu'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru |

**Prosiectau sy'n cael eu cwblhau yn 2024/25**

| **Prosiect** | **Nod** | **Cynnydd** | **Cyhoeddiad Disgwyliedig** | **Effaith Fwriadedig** |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad Data Cydraddoldebau Cymru | Archwilio pa ddata a thystiolaeth cydraddoldeb ynglŷn â'r rhai â nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig sy'n cael eu casglu a'u dadansoddi yng Nghymru ar hyn o bryd. Nodi pa ddata ystadegol sydd ar gael, bylchau mewn data ac argymell gwelliannau i ffynonellau ac allbynnau. | Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o'r ffynonellau data a'r allbynnau sy'n cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb sy'n cael eu defnyddio a'u cynhyrchu gan y Gwasanaethau Ystadegol.<br><br>Wrthi'n gweithio gyda phob maes pwnc polisi yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn ei dro i ddiweddaru gwaith yr archwiliad gyda chydweithwyr er mwyn meithrin ein dealltwriaeth o'r heriau o ran bylchau mewn data a nodi cyfleoedd i'w llenwi ar unwaith. | Hydref 2024 | Gallu dylanwadu ar gynhyrchwyr data yn Llywodraeth Cymru a thu hwnt a'u dwyn i gyfrif am ansawdd ac argaeledd eu data at ddibenion llywio penderfyniadau polisi. |
| Adroddiad Llesiant Cymru: y bennod ar Gymru sy'n fwy cyfartal Pennod Cymru sy'n fwy cyfartal | Coladu'r ystadegau cyhoeddedig ynglŷn â chydraddoldeb ar gyfer y bennod ar Gymru sy'n fwy cyfartal yn yr adroddiad Llesiant Cymru blynyddol, sy'n ein helpu i asesu a ydym yn gwneud cynnydd o ran y Dangosyddion Cenedlaethol. | Rydym wedi dechrau meddwl am yr adroddiad Llesiant Cymru blynyddol - y bennod ar Gymru sy'n fwy cyfartal. | Medi 2024 | Mae'r adroddiad Llesiant yn cael effaith mewn nifer o ffyrdd, ac mae'n ffynhonnell allweddol a ddefnyddir gan randdeiliaid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dinasyddion a'r cyfryngau i ddeall y tueddiadau a'r heriau allweddol y mae Cymru yn eu hwynebu. Caiff ei ddefnyddio gan Senedd Cymru ac eraill i graffu ar berfformiad Cymru yn erbyn y nodau. |

| Prosiect | Nod | Cynnydd | Cyhoeddiad Disgwyliedig | Effaith Fwriadedig |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu tystiolaeth a chyngor i gefnogi proses gyllidebu Llywodraeth Cymru | Cynnal adolygiadau cyflym a rhoi cyngor ar y dystiolaeth ynghylch cydraddoldeb i dynnu sylw at y rhai fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf gan bennu cyllideb i lywio penderfyniadau ar ddyraniadau'r gyllideb | Ar hyn o bryd yn cadarnhau'r cymorth sydd ei angen ar gyfer proses gyllidebu 2025/26.<br><br>Cefnogi adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. | Yn parhau | Bydd y dystiolaeth yn cael ei defnyddio yn Asesiad Effaith Integredig Strategol Cyllideb Ddrafft 2025-26 a bydd yn helpu i sicrhau bod adnoddau ariannol yn cyd-fynd yn briodol i sicrhau'r nod 'Cymru Fwy Cyfartal'. |
| Adolygiad o’r Arolwg Cenedlaethol: gwaith dadansoddi cydraddoldeb cyfun | Dadansoddi data Arolwg Cenedlaethol Cymru ac ystyried dichonoldeb defnyddio data cyfun i lunio amcangyfrifon cadarn yn ôl nodweddion cydraddoldeb. | Caiff adroddiad sy’n crynhoi’r canfyddiadau ac sy’n amlinellu argymhellion i wella’r ffordd y caiff gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig ei chasglu yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2024. | Hydref 2024 | Llunio dyfodol Arolwg Cenedlaethol Cymru i helpu meysydd polisi sy’n rhychwantu Llywodraeth Cymru i ddeall yn well dueddiadau/effeithiau eu penderfyniadau ar nifer o grwpiau cydraddoldeb mewn meysydd â blaenoriaeth a gofnodir ar yr arolwg. |
| Astudiaeth ddichonoldeb i gryfhau’r sampl o leiafrifoedd i Arolwg Cenedlaethol Cymru | Ystyried dichonoldeb cryfhau sampl yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer grwpiau lleiafrifol a gwaith profi gwybyddol. | Wedi cynnal dau ymarfer caffael tendr unigol i gomisiynu adolygiad ac argymhellion arbenigol annibynnol. Bydd canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn hydref 2024. | Hydref 2024 | Data manylach ar gyfer gwahanol nodweddion gwarchodedig o dan bynciau’r Arolwg Cenedlaethol sy’n gwella’r sylfaen dystiolaeth ar gydraddoldeb yn gyffredinol, gan gynnwys mwy o fanylder ar gyfer Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn ei dro yn ei gwneud yn bosibl i wneud penderfyniadau gwell mewn nifer o feysydd portffolio yn yr Arolwg |

| Prosiect | Nod | Cynnydd | Cyhoeddiad Disgwyliedig | Effaith Fwriadedig |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cenedlaethol. Hefyd, gwell dulliau mesur i asesu llwyddiant y cynlluniau gweithredu cydraddoldeb gwahanol e.e., Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. |
| Asesu dichonoldeb cael gwybodaeth fanylach am y bwlch cyflog ar sail cydraddoldebau, gan gynnwys ethnigrwydd ac anabledd i Gymru. | Ystyried a oes modd casglu a chyhoeddi data ar y bwlch cyflog ar gyfer nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig gwahanol ar lefel fanylach na'r hyn a gyhoeddir ar hyn o bryd, a sut. | Ar y cyd ag Ymchwil Data Gweinyddol Cymru mae'r timau wrthi'n ystyried mynediad at ddata TWE CThEF a datblygu sail gyfreithiol i Lywodraeth Cymru gael y data.<br>Os byddwn yn llwyddiannus, gallwn gysylltu data TWE â ffynonellau gweinyddol eraill (e.e. Cyfrifiad 2021) sy'n cynnwys data ar nodweddion gwarchodedig.<br>Wedi defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o brosiect dichonoldeb tebyg a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol pan gyfunodd sawl set ddata weinyddol ar gyfer 2018. | Yn barhaus – methu rhoi amcan o ddyddiad cyhoeddi'r dadansoddiad nes bod data wedi'i sicrhau o fewn Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw. | Gall y rhai sy'n llunio polisïau fod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio canfyddiadau ynglŷn â'r bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd ac anabledd i lywio eu penderfyniadau polisi. Gallai'r gwaith hwn oresgyn rhai o gyfyngiadau'r gwaith dadansoddi ar y bwlch cyflogau fel rhan o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, er enghraifft, byddai'r data a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i fonitro tueddiadau dros amser yn llai anwadal.<br><br>Llywio penderfyniadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd mewn cymdeithas a galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi gwybodaeth fanylach am y bwch cyflog ar sail ethnigrwydd (un o nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol) a'r bwlch cyflog ar sail anabledd (Carreg Filltir Genedlaethol). |

| Prosiect | Nod | Cynnydd | Cyhoeddiad Disgwyliedig | Effaith Fwriadedig |
|---|---|---|---|---|
| Casglu data Cyrff y Sector Cyhoeddus yng Nghymru 2022-23 | Hwyluso'r broses o gasglu data yn y dyfodol ar amrywiaeth gweithluoedd mewn cyrff yn y sector cyhoeddus.<br><br>Dechrau deall amrywiaeth aelodau byrddau mewn Cyrff Cyhoeddus a reoleiddir gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. | Dosbarthwyd dau arolwg peilot yn casglu gwybodaeth am amrywiaeth byrddau a gweithluoedd i Gyrff Sector Cyhoeddus a reoleiddir gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.<br><br>Mae'r arolygon wedi cau erbyn hyn, ac mae'r ymatebion yn cael eu coladu ac mae'r canfyddiadau yn cael eu crynhoi. | Hydref 2024 | Llywio penderfyniadau polisi ynglŷn â sut i wella amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyrff cyhoeddus, yn enwedig ar lefel arweinyddiaeth. |
| Adolygiad Llenyddiaeth o Gyrff Sector Cyhoeddus | Deall gwerth amrywiaeth yng ngweithluoedd Cyrff Cyhoeddus a nodi strategaethau priodol yn y Sector Cyhoeddus i sicrhau mwy o amrywiaeth o ran grwpiau heb eu cynrychioli mewn gweithluoedd ac ymhlith uwch-reolwyr. | Cynhelir adolygiad llenyddiaeth yn fewnol. Mae'r prosiect ar y cam adolygu ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2024. | Haf/Hydref 2024 | Llywio penderfyniadau polisi ynglŷn â sut i wella amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyrff cyhoeddus, yn enwedig ar lefel arweinyddiaeth. |
| Prototeipio dull o gydgynhyrchu tystiolaeth yn y Llywodraeth | Profi a datblygu dull o gydgynhyrchu tystiolaeth i ddadansoddwyr yn y Llywodraeth drwy ddefnyddio argymhellion y Cynllun Gweithredu Pobl Anabl fel | Mae dull gweithredu cychwynnol wedi cael ei ddatblygu i gydgynhyrchu Ymchwil Gymdeithasol, gyda'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl er mwyn cefnogi anghenion tystiolaeth y Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl sydd yn yr arfaeth. | Hydref/Gaeaf 2024 | Sicrhau bod profiadau bywyd wedi'u hymgorffori drwy gydol y cylch tystiolaeth mewn ymchwil gymdeithasol ym mhob un o feysydd portffolio Llywodraeth Cymru. |

| Prosiect | Nod | Cynnydd | Cyhoeddiad Disgwyliedig | Effaith Fwriadedig |
|---|---|---|---|---|
| | astudiaethau dichonoldeb. | Mae'r Unedau Tystiolaeth wedi gweithio mewn partneriaeth â Rhaglen Ymchwil Fewnol Llywodraeth Cymru i gyflawni hyn. | | Llywio penderfyniadau polisi ar sut i sicrhau bod argymhellion pwysig sy'n dod i'r amlwg o'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl i lywio'r Cynllun Gweithredu yn cael eu gweithredu ac yn eu tro yn cynyddu effaith y cynllun ar gyfer pobl anabl yng Nghymru. |
| Ffactorau sy'n rhwystro ac sy'n galluogi'r broses o gasglu a defnyddio data cydraddoldeb. | Ymchwilio i'r ffactorau sy'n rhwystro ac sy'n galluogi'r broses o gasglu a defnyddio data cydraddoldeb a chasglu tystiolaeth yn eu cylch. | Mae cynnig mewnol ar gyfer yr ymchwil wedi cael ei ddatblygu sy'n cynnwys arolwg â dadansoddwyr y llywodraeth, ymchwil ansoddol ar raddfa fach ac adolygiad llenyddiaeth cysylltiedig.<br>Mae gwaith chwilio ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth wedi cael ei wneud ac mae'r dogfennau wrthi'n cael eu hadolygu. Mae'r holiadur yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r adolygiad llenyddiaeth. | Gwanwyn 2025 | Y gallu i nodi'r atebion i atal y rhwystrau i gasglu tystiolaeth ar gydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru a gwella ansawdd, manylder, argaeledd a hygyrchedd y dystiolaeth. |

| Prosiect | Nod | Cynnydd | Cyhoeddiad Disgwyliedig | Effaith Fwriadedig |
|---|---|---|---|---|
| Canllawiau i swyddogion o Lywodraeth Cymru sy'n casglu data cydraddoldeb. | Rhoi canllawiau i ddadansoddwyr ynglŷn â sut i gasglu data ar nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig, gan gynnwys ystyriaethau cyffredinol a chwestiynau a awgrymir ac opsiynau ymateb ar gyfer pob nodwedd sy'n adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru. | Mae canllawiau interim ar argymhellion ar gyfer cwestiynau'r arolwg o gydraddoldeb wedi cael eu drafftio.<br><br>Mae'r arweiniad drafft yn cael ei fireinio cyn ei rannu â chydweithwyr y tu hwnt i'r Unedau Tystiolaeth er mwyn cael adborth. | Dogfen i'w chyhoeddi ar y fewnrwyd yn haf 2024. | Rhoi cyngor clir i ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru a chontractwyr a benodir ar gasglu data ar nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig ac, yn y pen draw, wella argaeledd, ansawdd a chysondeb data ar nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig yn holl allbynnau Llywodraeth Cymru a fydd yn ei dro yn gwella penderfyniadau polisi ym mhob maes portffolio. |
| Fframwaith Gwerthuso a Monitro Effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Gwerthuso llwyddiant Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. | Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil wedi datblygu fframwaith ar gyfer mesur effaith gyffredinol y cynllun ac mae'n asesu dichonoldeb defnyddio'r fframwaith ar y cyd ag aelodau o'r Grŵp Atebolrwydd Allanol drwy is-grŵp tystiolaeth. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn rhannu'r gwaith o ddatblygu dangosyddion mesur a sut i ymgorffori ymchwil i brofiadau bywyd. | Hydref 2024 | Effaith fwriadedig y fframwaith gwerthuso yw dylanwadu ar ddulliau gweithredu gwrth-hiliol a'u hymgorffori drwy'r ffordd rydym yn mesur Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac yn olrhain a yw'n cyflawni ei nod o wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030. |
| Mapio dangosyddion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Casglu ynghyd yr holl ddangosyddion y gellir eu defnyddio i fwydo i mewn i'r fframwaith gwerthuso a monitro a'u mapio yn | Wedi casglu ac wedi mapio dangosyddion o fframweithiau polisi a ffynonellau data eraill mewn meysydd polisi, wedi asesu eu statws ac wedi cynnwys | Yn parhau | Effaith y fframwaith gwerthuso yw dylanwadu ar ddulliau gweithredu gwrth-hiliol a'u hymgorffori drwy'r ffordd rydym yn mesur Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac |

| Prosiect | Nod | Cynnydd | Cyhoeddiad Disgwyliedig | Effaith Fwriadedig |
|---|---|---|---|---|
| | erbyn meysydd polisi sy’n achos pryder, a rhoi arwydd o’u statws cyfredol o ran argaeledd ac ansawdd y data. Yna, bydd dangosyddion allweddol mewn meysydd polisi yn cael eu nodi. | dolenni i’r data/dadansoddiad lle y bônt ar gael.<br>Wedi dechrau ar y broses o siarad â swyddogion meysydd polisi ynglŷn â nodi dangosyddion allweddol. | | yn olrhain a yw’n cyflawni ei nod o wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030. |
| Ymchwil i brofiadau bywyd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Casglu data ansoddol ar brofiadau bywyd pobl yng Nghymru a’u profiadau o hiliaeth drwy gomisiynu prosiectau ymchwil bach sy’n canolbwyntio ar wahanol feysydd ymchwil. Bydd y meysydd hyn yn cefnogi gofynion tystiolaeth ar gyfer y themâu cyffredin allweddol sy’n dod i’r amlwg wrth i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gael ei roi ar waith. | Mae pum prosiect profiad byw ar raddfa fach wedi'u comisiynu ac mae’r prosiectau wedi dechrau'r cam dylunio gwaith maes. Mae'r prosiectau hyn yn ymdrin ag ystod eang o themâu allweddol sy'n deillio o weithredu’r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac maent yn groestoriadol eu natur. | Hydref 2024 | Effaith y fframwaith gwerthuso yw dylanwadu ar ddulliau gweithredu gwrth-hiliol a’u hymgorffori drwy’r ffordd rydym yn mesur Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac yn olrhain a yw’n cyflawni ei nod o wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030. |
| Canllawiau ar iaith wrth-hiliol ar gyfer ystadegau ac ymchwil | Rhoi canllawiau i ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio iaith wrth-hiliol mewn adroddiadau, datganiadau a dogfennau ymchwil ac ystadegau. | Mae’r drafft bron â bod yn barod i’w rannu i’w adolygu y tu allan i’r tîm ei hun. | Dogfen i’w chyhoeddi ar y fewnrwyd erbyn haf 2024 | Helpu dadansoddwyr Llywodraeth Cymru a chontractwyr a benodir i ddeall gwrth-hiliaeth a sut mae’n gymwys i’r iaith a ddefnyddir mewn cyhoeddiadau a sicrhau bod holl allbynnau dadansoddol Llywodraeth Cymru yn wrth-hiliol |

| Prosiect | Nod | Cynnydd | Cyhoeddiad Disgwyliedig | Effaith Fwriadedig |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ac yn enghreifftiau o arferion gorau. |
| Ymchwil i'r ffordd y gellir casglu gwybodaeth i adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd. | Datblygu cyfres o gwestiynau, opsiynau ymateb, a chanllawiau sy'n adlewyrchu'r Model Cymdeithasol o Anabledd, er mwyn ymgorffori ymchwil gymdeithasol yn y dyfodol a sicrhau dull gweithredu safonol a chyson. | Dyfarnwyd y contract i NatCen a bydd yn dechrau a dechreuodd ym mis Mawrth 2024. | Adroddiad interim. - Awst 2024<br><br>Adroddiad terfynol - Gaeaf 2025 - | Sicrhau dull safonol a chyson o gasglu data ar amhariadau ac anabledd at ddibenion ymchwil ystadegau ac ymchwil cymdeithasol, sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r model cymdeithasol a sicrhau canlyniadau gwell i bobl anabl yng Nghymru. |
| Canllawiau ar iaith y model cymdeithasol o anabledd ar gyfer ystadegau ac ymchwil | Rhoi canllawiau i ddadansoddwyr ac ymchwilwyr ar ddefnyddio iaith y model cymdeithasol mewn adroddiadau, datganiadau a dogfennau ymchwil ac ystadegau, gan gynnwys argymhellion ynglŷn â'r termau y dylid ac na ddylid eu defnyddio. | Adolygu'r ail ddrafft | Dogfen i'w chyhoeddi ar y fewnrwyd erbyn haf 2024 | Helpu dadansoddwyr ac ymchwilwyr i ddeall y model cymdeithasol o anabledd yn well a sut i gymhwyso'r iaith mewn cyhoeddiadau er mwyn sicrhau bod allbynnau dadansoddi ac ymchwil yn unol â'r farn hon ar anabledd. |
| Asesu gwerthusadwyedd Cynllun Gweithredu LHDTC+ | Creu damcaniaethau newid i gefnogi Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru a nodi sut i werthuso'r Cynllun Gweithredu. | Mae'r Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb wedi bod yn gweithio'n agos gyda chontractwr allanol i gyflawni'r prosiect hwn. Mae adroddiad drafft wedi cael ei gyflwyno. | Haf 2024 | Gosod y sylfeini ar gyfer gwerthusiad cadarn ac effeithiol o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru a nodi cyfleoedd i wella prosesau monitro a gwerthuso ym maes polisi LHDTC+. |

| Prosiect | Nod | Cynnydd | Cyhoeddiad Disgwyliedig | Effaith Fwriadedig |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu safonau cyson ar gyfer casglu data ar ryw a hunaniaeth rhywedd gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. | Datblygu safonau cysoni sy’n seiliedig ar dystiolaeth a chanllawiau ar gasglu data ar ryw a hunaniaeth rhywedd, gan gynnwys statws traws, gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. | Dyfarnwyd contract ymchwil i Laurel Research Consulting. Dechreuodd y contract ym mis Mawrth 2024. | Gwanwyn 2025 | Dylanwadu ar y broses o ddatblygu safonau a chanllawiau gan y SYG a’r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau a/neu roi tystiolaeth i lywio’r broses o ddatblygu safonau a chanllawiau penodol i Gymru. |

**Prosiectau sy'n cael eu cwmpasu yn 2024-25**

| **Prosiect** | **Nod** | **Cynnydd** | **Effaith Fwriadedig** |
|---|---|---|---|
| Cydraddoldeb yn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion | Gwella'r broses o gasglu ac adrodd ar ddata cydraddoldebau yn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion. | Yn parhau: Mae dogfennaeth ar y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion wedi cael ei hadolygu.<br><br>Mae cyfarfod ag arweinydd dadansoddol Llywodraeth Cymru ar y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion wedi'i drefnu i gytuno ar y camau nesaf i gynnal y dadansoddiad. | Cwmpasu'r defnydd posibl o'r Arolwg o Iechyd a Llesiant Myfyrwyr er mwyn deall deilliannau anghyfartal i blant oed ysgol.<br>Gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gydraddoldebau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. |
| Data ar ddyled yn ôl nodweddion cydraddoldeb | Ystyried dichonoldeb coladu a chyhoeddi data blynyddol ar ddyled yng Nghymru, wedi'u dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig. | Yn parhau: Camau cwmpasu cynnar sy'n ystyried ffynonellau data posibl.<br><br>Bydd yr arolwg o adnoddau teuluol yn cyrraedd o fis Ebrill 2024, a fydd yn cryfhau sampl Cymru fel y gellid gwneud gwaith dadansoddi ychwanegol.<br><br>Ystyrir ffynonellau data ychwanegol a all ei gwneud yn bosibl i waith dadansoddi manylach gael ei wneud. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thimau Ymchwil Data Gweinyddol i nodi ffynonellau a ddelir gan adrannau eraill y gallai Llywodraeth Cymru geisio cael gafael arnynt. | Amlinellu dichonoldeb coladu a chyhoeddi data blynyddol ar ddyled yng Nghymru a chyhoeddi dadansoddiad newydd yn ôl nodweddion gwarchodedig.<br>Gwella dealltwriaeth o'r ffordd y mae dyled yn effeithio'n wahanol ar grwpiau nodweddion penodol. |
| Arweinydd Llywodraeth Cymru ar Dasglu Data Cynhwysol y SYG | Monitro a llunio adroddiadau ar yr ymrwymiadau i asesu a ydym ar y trywydd cywir i sicrhau cynnydd mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer pob un o'r Egwyddorion Data Cynhwysol dros y | Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol ar 31 Mai 2023.<br><br>Adroddiad blynyddol ar gyfer 2024 ar y gweill – sawl cyfarfod gyda thîm y Tasglu Data Cynhwysol a darparu diweddariadau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl ymrwymiadau ac argymhellion | Sicrhau cysondeb a chydlyniaeth â datblygiadau ym maes tystiolaeth gynhwysol yng Ngwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. |

| **Prosiect** | **Nod** | **Cynnydd** | **Effaith Fwriadedig** |
|---|---|---|---|
| | tair blynedd nesaf, a thu hwnt. | perthnasol. Aros am adroddiad drafft gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i adolygu. | |
| Monitro'r ddyletswydd ynghylch cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol | Datblygu fframwaith cyffredinol a dangosyddion perfformiad i fonitro'r ffordd y caiff cynlluniau gweithredu a strategaethau mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Yn parhau: Mae adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth yn cael ei gynnal i ddeall pa ddulliau o werthuso cyfres o gynlluniau gweithredu neu strategaethau cydraddoldeb sydd wedi cael eu mabwysiadu gan eraill.<br>Mae hyn yn cynnwys deall sut mae'r cynlluniau eu hunain yn:<br>1. cau'r bwlch gweithredu rhwng paratoi cynlluniau ac effaith wirioneddol.<br>2. ymgorffori croestoriadedd yn effeithiol. | Llywio penderfyniadau ym mhob un o feysydd portffolio Llywodraeth Cymru a fydd â'r nod o leihau anghydraddoldeb. |
| Dadansoddiad croestoriadol o ddata 'canlyniadau bywyd' Cyfrifiad 2021 | Nodi'r hyn y gall data Cyfrifiad 2021 yn ei ddweud wrthym am sut y gall canlyniadau amrywio ar y croestoriadau rhwng nodweddion gwarchodedig. | Mae'r ystyriaeth gychwynnol wedi dechrau. | Nodi a llywio penderfyniadau ynghylch pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod o dan anfantais mewn cymdeithas. |
| Effeithiau Costau Byw ar grwpiau cydraddoldeb | Deall effaith barhaus yr argyfwng costau byw ar bobl yn ôl nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig. | Mae gwaith cwmpasu cychwynnol wedi cael ei wneud ac mae papur opsiynau wedi cael ei ddrafftio.<br><br>Mae trafodaethau pellach yn mynd rhagddynt er mwyn penderfynu sut y byddai'r dystiolaeth yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion polisi. Mae'n bosibl y bydd y dadansoddiad croestoriadol o'r Cyfrifiad sydd yn yr arfaeth yn diwallu'r angen polisi hwn. | Nodi pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod o dan anfantais mewn cymdeithas a llywio penderfyniadau i gefnogi'r bobl hynny yng Nghymru yn well. |

| **Prosiect** | **Nod** | **Cynnydd** | **Effaith Fwriadedig** |
|---|---|---|---|
| Arolwg Cenedlaethol Cymru: Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol sy'n defnyddio data cyfun o'r arolwg | Rhoi dadansoddiad ystadegol ar nifer o feysydd polisi a gofnodir yn Arolwg Cenedlaethol Cymru rhwng gwahanol grwpiau cydraddoldeb. | Mae gwaith dadansoddi cychwynnol wedi cael ei wneud, yn aros am adnoddau i sicrhau ansawdd a drafftio adroddiad. | Nodi pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod o dan anfantais mewn cymdeithas a llywio penderfyniadau i gefnogi'r bobl hynny yng Nghymru yn well. |
| Dadansoddiad cydraddoldeb y Cyfrifiad a Chyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw | Gwneud dadansoddiad cychwynnol o ddata cydraddoldeb cronfa ddata'r Cyfrifiad a Chyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw ag YDG Cymru er mwyn ystyried beth sydd ar gael a pha ymchwil bellach sydd ei hangen. Er enghraifft, cymharu nodweddion rhwng 2011, 2021. Dadansoddiad o gyfeiriadedd rhywiol ar gyfer yr arolwg mawr cyntaf sy'n cynnwys y data hyn. | Mae rhaglen waith i wneud rhagor o waith dadansoddi ar ddata Cyfrifiad 2021 yn ôl nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig yn cael ei datblygu a fydd yn ystyried cyfleoedd i gynnig dadansoddiad cysylltiedig drwy gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw. | Nodi pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod o dan anfantais mewn cymdeithas a llywio penderfyniadau i gefnogi'r bobl hynny yng Nghymru yn well. |
| Data cydraddoldeb ac amrywiaeth Siop Un Stop Ddigidol Cymru, sydd ar gael yn hawdd ac ar-lein | Tudalen we ganolog lle y gellir coladu tystiolaeth ynglŷn â chydraddoldeb er mwyn gwneud y dystiolaeth yn fwy | Yn parhau: Mae cysylltiad rheolaidd wedi cael ei sefydlu â thimau Digidol, Data a Thechnoleg yn Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn asesu cyfleoedd i gysoni â llwyfan newydd StatsCymru. | Gall y Sector Cyhoeddus, y Trydydd Sector ac eraill ddefnyddio tystiolaeth cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn eu prosesau cynllunio a |

| Prosiect | Nod | Cynnydd | Effaith Fwriadedig |
|---|---|---|---|
| | hygyrch i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. | Mae rhaglen o ymchwil defnyddwyr ar y gweill i asesu anghenion cynulleidfa ar gyfer y siop un stop. | gwneud penderfyniadau eu hunain er enghraifft, wrth ddatblygu gwasanaethau neu dargedu adnoddau. |
| Tystiolaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr | Datblygu cynllun tystiolaeth ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr | Caiff gwaith cwmpasu cychwynnol ei wneud ar y cyd â'r maes polisi a chaiff opsiynau ar gyfer gwaith ymchwil a dadansoddi â blaenoriaeth eu hystyried. | Gwella'r sylfaen dystiolaeth yng Nghymru, a helpu i nodi problemau a gwerthuso polisïau i wella canlyniadau i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. |
| Ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â phobl anabl a chyflogaeth | Datblygu pecyn data o ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â phobl anabl yng Nghymru. | Mae setiau data perthnasol o Gyfrifiad 2021 wedi cael eu dadansoddi. Bwriedir dadansoddi data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ymhellach. | Gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag cael cyflogaeth er mwyn llywio gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl / Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl sy'n mynd rhagddo. |
| Rhwystrau i gyflogaeth i bobl anabl | Ystyried profiadau gwaith a chyflogaeth pobl anabl yng Nghymru ers COVID-19. | Yn parhau: Sawl cyfarfod â'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl ynglŷn â chwmpas y prosiect sydd bellach yn canolbwyntio ar fywyd i bobl anabl ar hyn o bryd o ran eu profiadau o waith a chyflogaeth ers COVID-19.<br><br>Mae manyleb.<br>yn cael ei olygu a'i fireinio yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid | Deall rhwystrau i gyflogaeth a'r rhesymau dros ganlyniadau cyflogaeth gwahanol i bobl anabl yng Nghymru, a fydd yn ei dro yn llywio penderfyniadau a fydd yn rhoi gwell cymorth i bobl anabl gael cyflogaeth a'i chynnal. |
| Gwerthusiad Cynllun Gweithredu LHDTC+ | Bwrw ymlaen ag argymhellion yr asesiad | Bydd gwaith cwmpasu cychwynnol yn cael ei wneud gyda'r maes polisi a bydd opsiynau | Effaith arfaethedig y gwerthusiad yw dylanwadu ar ac ymgorffori |

| Prosiect | Nod | Cynnydd | Effaith Fwriadedig |
|---|---|---|---|
| | gwerthuso LHDTC+ wrth baratoi ar gyfer gwerthuso effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+ | gwerthuso yn cael eu hystyried yn dilyn cyflwyniad i bolisi gan Alma Economics ar ganlyniadau'r Asesiad Gwerthuso. | mesur cyfeiriadedd rhywiol a rhyw i ddeall a yw'r cynllun gweithredu LHDTC+ yn cyflawni ei nod o wneud Cymru y genedl fwyaf cyfeillgar i LHDTC+ yn Ewrop. |